

Canllaw i bobl
ifanc ar

BUDD-DAL
PLANT...



www.newport.gov.uk

Bydd y canllaw hwn yn rhoi **cyngor**
a **gwybodaeth** ynghylch pa opsiynau
cymorth i blant sydd ar gael i chi.



NEWPORT
CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS
CASNEWYDD

CANLLAW I BOBL IFANC I FUDD-DALIADAU A HAWLIAU I RIENI IFANC...

Gall fod yn amser HERIOL ond BUDDIOL iawn i fod yn rhiant newydd. Dyma wybodaeth am ba gymorth sydd ar gael i chi.



BUDD-DALIADAU A GRANTIAU...

Gallai fod gennych hawl i gael y budd-daliadau a'r grantiau canlynol (cywir ar gyfer 2020).

- **Budd-dal plant (plentyn Iaf) £21.05 yr wythnos**
- **Budd-dal plant (2il blentyn ac ati) £21.05 yr wythnos**
- **Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn £500**

BUDD-DAL PLANT...

Cyn gynted ag y bydd eich plentyn yn cael ei eni, gallwch hawlio budd-dal plant. Byddwch yn derbyn taliad misol o'r adeg y caiff eich plentyn ei eni nes ei fod yn 16 oed (neu 20 oed os yw'n aros mewn addysg).

GRANT MAMOLAETH CYCHWYN CADARN...

Os ydych ar fin cael eich plentyn a'ch bod ar fudd-daliadau, efallai y gallwch hawlio'r grant hwn. Mae angen i chi hawlio 11 wythnos cyn eu geni NEU o fewn 6 mis i'r enedigaeth a bydd angen gweithiwr iechyd proffesiynol i lofnodi eich cais.

Mae'r ffurflen gais ar gael yn:

www.gov.uk/sure-start-maternity-grant

TALEBION CYCHWYN IACH...

Talebau yw'r rhain i helpu tuag at gost ffrwythau, llyisiau a llaeth i'ch plentyn. Gallwch wneud cais am y rhain os ydych ar rai budd-daliadau AC yn feichiog neu os yw eich plentyn o dan 4 oed.

I wneud cais ewch i www.healthystart.nhs.uk



www.newport.gov.uk

CYMORTH GOFAL PLANT...

Os ydych yn rhiant ifanc ac yn ceisio dod o hyd i waith, gallai dod o hyd i ofal plant fod yn anodd. Yma rydym yn tynnu sylw at ba gymorth a allai fod ar gael.

LLES...

Mae bod yn rhiant newydd yn peri straen ac mae'n bwysig bod yn bositif. Mae cymorth ar gael drwy grwpiau mamau a babanod lleol. I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.newport.gov.uk/fis.

Am awgrymiadau ar ofalu am eich iechyd meddwl a'ch lles ewch i'r gwefannau canlynol:

www.platform.org/project/young-people
www.youngminds.org.uk

DECHRAU'N DEG...

Rhaglen gan Lywodraeth Cymru yw Dechrau'n Deg sydd ar gael mewn rhai ardaloedd sy'n rhoi cymorth i deuluoedd â phlant 0-3 oed. Gall gynnig 2.5 awr o ofal plant y dydd am y rhan fwyaf o'r flwyddyn ac mae hefyd yn cynnig cymorth arall fel dosbarthiadau rhianta.

Mae'n rhaid i chi fyw mewn ardal cod post benodol - i gael gwybod mwy ewch i www.newport.gov.uk/flyingstart neu e-bostiwch flying.start@newport.gov.uk

GOFAL PLANT TRA'N ASTUDIO...

Os ydych yn ystyried mynd i'r brifysgol, efallai y gallwch wneud cais am rywffaint o arian ar gyfer gofal plant.

Mae hyn fel arfer yn dibynnu ar:

- **Y swm o arian sydd gennych yn dod i mewn**
- **Pa fudd-daliadau rydych chi'n eu cael**

- **Oedran eich plentyn**
- **Math a hyd eich cwrs**

I gael gwybod mwy siaradwch â'ch cynghorydd personol neu ewch i:

www.studentfinancewales.co.uk

GOFAL PLANT TRA'N GWEITHIO...

Os ydych yn cael credyd cynhwysol gallwch dderbyn hyd at **85%** o gost gofal plant yn ôl. Gallai hyn fod hyd at **£646.35** y mis i un plentyn. Mae'n bwysig nodi ei bod rhaid i chi dalu am ofal plant ymlaen llaw ac yna ei hawlio'n ôl.

EICH PLENTYN YN YR YSGOL ...

A yw eich plentyn yn mynd yn hŷn ac ar fin dechrau'r ysgol? Fel popeth arall, gall hyn gostio arian. Gallech gael rhywfaint o gymorth drwy'r cynlluniau canlynol:

Prydau Ysgol am Ddim

Os ydych yn cael rhai budd-daliadau a bod eich incwm yn is na swm penodol, byddwch yn gallu hawlio prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn sicrhau bod eich plentyn yn cael pryd iach, maethlon wedi'i goginio bob dydd.

Bydd ysgol eich plentyn hefyd yn cael mwy o arian gan Lywodraeth Cymru i gefnogi eich plentyn.

Brecwast am ddim

Dylai ysgolion cynradd yr awdurdod lleol yn eich ardal ddarparu brecwast am ddim. Mae ysgolion yn darparu brecwast iach a maethlon cyn dechrau'r diwrnod ysgol.

Siaradwch ag ysgol eich plentyn i gael rhagor o wybodaeth.



GRANT DATBLYGU DISGYBLION...

Os bydd eich plentyn yn cael prydau ysgol am ddim, gallech gael hyd at £125 ar gyfer pob cais. Mae hyn yn cynnwys:

- **gwisg ysgol a chit chwaraeon**
- **offer ar gyfer triplau y tu allan i oriau ysgol**
- **offer ar gyfer rhai gweithgareddau ysgol**

I gael rhagor o wybodaeth am brydau ysgol am ddim a'r grant datblygu disgyblion ewch i www.newport.gov.uk/schools

